CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 25 EBRILL 2018

Y Maer, y Cyng Alun Lenny, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 25ain o Ebrill 2018 am 8.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Phil Grice, Alun Lenny, Ken Lloyd, Wyn Thomas, Barry Williams, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas, Angharad Jones Leefe, Miriam Moules, Gareth John a Dr Ioan Matthews

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Llinos Jenkins - Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy ddiolch i'r Cynghorwyr am eu hamynedd oherwydd yr oedi wrth ddechrau'r cyfarfod.

490. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng Peter Hughes Griffiths (ymrwymiadau teuluol), ac Arwel Lloyd (ymrwymiadau teuluol).

491. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem 10 ar yr Agenda fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir.

Datganodd y Cyng Ken Lloyd ddiddordeb yn eitem 10 ar yr Agenda fel aelod o Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir.

Datganodd y Cyng Alun Lenny, Ken Lloyd, Emlyn Schiavone a Wyn Thomas diddordeb fel Ymddiriedolwyr Oriel Myrddin.

492. Cwestiynau

Gofynnodd y Cynghorydd Alun Lenny y cwestiwn canlynol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) -

A wnaiff y cyngor hwn bwyso ar y Bwrdd Iechyd i ystyried lleoli'r ysbyty newydd arfaethedig ar safle yn union i'r gorllewin o dref Caerfyrddin; a thra bo nhw'n ystyried, a ddyle Cyngor Tref Caerfyrddin gychwyn ymgyrch i gadw'r adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Glangwili ar agor rhag ofn iddynt wrthod yr awgrym?

Ar ôl trafodaeth hir fe gynigiwyd gan y Cyng Dr Baba Gana, eiliwyd gan y Cyng Angharad Jones Leefe a **CHYTUNWYD** gan bawb (dau ymatal) y dylai'r cyngor lobïo Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac ymgyrchu i gadw Ysbyty Glangwili ar agor. Dylai'r ddeiseb ar-lein a ddechreuodd y Cyng Alun Lenny drosglwyddo i Gyngor y Dref a dylid dosbarthu deiseb bapur cyn gynted ag y bo modd.

CYTUNWYD hefyd y dylai is-grŵp gyfarfod i lywio'r ymgyrch, dylai'r aelodaeth gynnwys Cyng Alun Lenny, Gareth John, Emlyn Schiavone, Dr Baba Gana a Miriam Moules. Dylid gofyn i'r Dr Rhys Thomas a Ruth Williams a hoffent gael eu cyfethol i'r grwp.

493. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 28ain o Fawrth 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone, eiliwyd gan y Cyng Angharad Jones Leefe a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 28ain o Fawrth 2018 fel cofnod cywir.

494. Materion sy'n codi

Dim

495. I gadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10fed o Ebrill 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Angharad Jones Leefe, eiliwyd gan y Cyng Miriam Moules, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar y 10fed o Ebrill 2018 a'u derbyn yn gofnod cywir

496. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi -

Tudalen 111: 471 - Aelodaeth Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone a **CHYTUNWYD** gan bawb i enwebu'r Cyng Wyn Thomas i'r fforwm.

Tudalen 111: 472 – 'Winter Wonderland' ym Mharc Caerfyrddin

Ar ôl trafodaeth hir fe gynigiwyd gan y Cyng. Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid gwahodd cynrychiolydd o Streamline Leisure i gyfarfod nesaf y Cyngor.

497. I gadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 12fed o Ebrill 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar y 12fed o Ebrill 2018 a'u derbyn yn gofnod cywir.

498. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion sy'n codi

Dim i'w nodi.

499. Adroddiad Clerc y Dref

(a) Cynllunio

W/37096 – Neuadd Ddinesig San Pedr, 1 Maes Nott, Caerfyrddin. SA31 1PG

W/37097 – Neuadd Ddinesig San Pedr, 1 Maes Nott, Caerfyrddin. SA31 1PG

Gan mai Cyngor Tref Caerfyrddin oedd wedi cyflwyno'r ceisiadau cynllunio rhestredig, byddai'r cynlluniau'n cael eu nodi.

Derbyniwyd cais cyn cynllunio gan Lidl, gan amlinellu cynlluniau i ddatblygu hen Bencadlys yr Heddlu ym Mharc y Brodyr Llwydion. Cytunwyd y dylai'r mater gael ei symud i agenda'r cyfarfod nesaf.

(b) Priffyrdd

Dim i'w nodi.

(c) Trwyddedu

Dim i'w nodi.

500. Gwobrau Blynyddol Un Llais Cymru

Dywedodd y Cadeirydd y dylid ymestyn llongyfarchiadau i'r holl staff ar eu cyflawniad. Cynigiwyd gan y Cyng Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Gareth John a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylai fod dathliad bach ar yr un pryd â'r Gwobrau 'Pride of Place'.

NODWYD adroddiad y Clerc.

501. Ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y sector Cyngor Tref a Chymuned

Cynigiwyd gan y Cyng. Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas, a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylai'r Clerc ffurfio ymateb yn seiliedig ar y drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Rheoli blaenorol.

502. Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl'

Dylai aelodau ymateb i'r ymgynghoriad yn unigol.

NODWYD adroddiad y Clerc.

503. Digwyddiad Ymgynghori Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

NODWYD adroddiad y Clerc.

504. Dathliad 200 mlynedd ers glaniad y gymuned Gymraeg gyntaf yng Nghanada

Dywedodd y Cyng Phil Grice y byddai'n ysgrifennu llythyr at Jennifer Spencer (Pwyllgor Trefniadaeth).

505. Cyngor Sir Gaerfyrddin – Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu – Polisi Effaith Gronnol Heol Awst

Cytunwyd y dylai'r mater gael ei symud i agenda'r cyfarfod nesaf.

506. Cyngor Sir Gaerfyrddin – Adolygiad o'r Polisi Hapchwarae

Cytunwyd y dylai'r mater gael ei symud i agenda'r cyfarfod nesaf.

507. Cyngor Sir Gaerfyrddin – Gorfodi Sifil Arfaethedig ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud

Cynigiwyd gan y Cyng Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Jeff Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb i gefnogi'r cynnig.

508. Hyfforddiant Cod Ymddygiad

NODWYD adroddiad y Clerc.

509. Llythyron o Ddiolch

NODWYD adroddiad y Clerc.

510. Adroddiad y Maer

Nododd y Maer mai hyn oedd ei gyfarfod diwethaf fel Cadeirydd, a gwahodd Cynghorwyr a'r Wasg i luniaeth yn y Parlwr ar ôl y cyfarfod.

NODWYD adroddiad y Maer.

511. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

Cymerodd y Cyng Emlyn Schiavone y cyfle i ddiolch i'r Cyng Alun Lenny am ei waith caled trwy gydol y flwyddyn.

NODWYD adroddiadau'r Cynghorwyr.

512. Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg

Heb ei gynnig.

513. Materion yn Codi

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:15 yr hwyr